CTC 23

Ymgynghoriad ar rôl, llywodraethiant ac atebolrwydd y sector cynghorau tref a chymuned

Consultation on the role, governance and accountability of the community and town council sector

Ymateb gan: Justin Horrell

Response from: Justin Horrell

Rwyf yn gynghorydd Tref dros ward Abercraf ar Gyngor Tref Ystradgynlais. Rwy'n cynrychioli Plaid Cymru. Ond fy ymateb i fel cynghorydd ac unigolyn yw hwn nid ymateb ar ran y Cyngor neu Blaid Cymru.

- **Rôl a gwerth cynghorau cymuned a thref yng Nghymru;**

Mae gwerth sylweddol i gynghorau Cymuned a Thref fel cynrychiolwyr "llawr gwlad" ar gyfer eu cymunedau. Mae'r rhan fwyaf o gynghorwyr yn ymroddedig i'w cymunedau ac eisiau gwarchod eu buddion. Mae perygl y gall y gwarchod hwn fod yn geidwadol ei natur oherwydd proffil oedran a chefndir cynghorwyr.

Mae rôl hefyd i gynghorau wrth ddarparu gwasanaethau lleol ar gyfer eu cymunedau. Ond mae cynghorau cymuned a thref yn cael eu ariannu ar hyn o bryd gan praesept ar y Treth Cyngor. Treth hynod "anflaengar" yw'r treth Cyngor felly mae risg bod ariannu a darparu gwasanaethau gan cynghorau cymuned a thref yn gallu bod yn faich ar gymunedau - i gymharu ag ariannu'r gwasanaethau hynny gan haenau arall o lywodraeth neu gan y trydydd sector.

- **A yw'r sector yn addas i'r diben mewn tirwedd llywodraeth leol sy'n esblygu;**

Mae eisiau i gynghorau wella llawer yn y ffordd maent yn cyfathrebu ac ymgysylltu gyda'u cymunedau. Galla i ddweud o brofiad personol nag yw y rhan fwyaf o drigolion lleol yn deall dim ar eu cyngor tref lleol neu yn gwybod cyfrifoldebau neu enwau eu cynghorwyr lleol. Byddai e.e. system syml o chwilio ar lein am enwau cynghorwyr wrth cod post neu gyfeiriad trigolion yn gymorth i bobl ddeall sut mae cysylltu gyda'u cynghorau lleol.

- **Trefniadau llywodraethu a chraffu a'u heffaith ar atebolrwydd a thryloywder;**

Mae eisiau trefn cryf o graffu. Mae'r system presennol i weld yn gymhleth a drud i gynghorau, yn araf ac yn aneffeithiol. Mae'n bosib y byddai system ar-lein cenedlaethol lle gallai gynghorau reoli eu materion ariannol a gweithredol yn ateb weddol hawdd ond effeithiol. Mae cwmnïau preifat sy'n cynnig systemau felly ond maen nhw'n ddrud ac yn gymhleth i gynghorau llai eu defnyddio fel cyrff unigol.

- **Capasiti technoleg ddigidol a thechnoleg newydd i wella prosesau gwneud penderfyniadau, darparu gwasanaethau ac annog cyfranogiad mewn prosesau democrataidd lleol**

Mae gofynion statudol ar gynghorau yn barod i gyflawni rhannau o'u gweithgareddau'n ddigidol trwy e.e. cael gwefan a chynnig mynediad ar lein i gyfarfodydd. Ond does dim gofynion ar gyfer pethau eraill megis defnyddio systemau ebyst i gyfathrebu, storfa cwmwl neu weithgareddau eraill. Mae hyn yn creu risg bod y cynghorau naill ai'n colli cyfleoedd i fod yn fwy effeithiol drwy ddefnyddio technoleg neu'n gamddefnyddio systemau a llwyfannau ar-lein ac yn rhoi eu hunain mewn perygl o dwyll, colli data a materion diogelwch eraill.

Yn ogystal a bod yn gynghorydd tref rwy hefyd yn lywodraethwr mewn ysgol gynradd lleol. Mae'n ddiddorol cymharu'r ddarpariaeth canolog sy ar gael i lywodraethwyr ysgol gyda beth sy yna i gynghorau cymuned a thref a'u cynghorwyr. Mae llywodraethwyr ysgol yn cael cyfrif ar y platfform "Hwb" sy'n cynnig ebost, rhannu ffeiliau, cyfarfodydd ar lein a nodweddion eraill. Mae staff ysgolion hefyd yn cael cyfrifon Hwb yn ogystal a mynediad at systemau eraill ar gyfer cynllunio ariannol a gweithgareddau eraill.

Fel mae'n sefyll mae pob cyngor cymuned a thref yn gorfod caffael systemau gwefan, cyfarfod ar-lein megis Zoom, ebyst ac yn y blaen yn unigol. Mae eu staff nhw yn gorfod integreiddio'r systemau y maent yn eu defnyddio a hefyd ceisio rheoli a chynnal cyfarpar digidol fel cyfrifiaduron personol, argraffyddion a chyfarpar cyfathrebu. Mae cael pob cyngor yn gweithredu'n unigol felly yn achosi costau uwch ac aneffeithlonrwydd ar ran defnydd o'r technoleg. Mae clercod a staff cynghorau yn gwastraffu amser ar faterion mewnol yn lle gweithio ar ran eu cymunedau. Mae'n debyg iawn y byddai achos busnes ar gyfer caffael canolog ar gyfer e.e. trwyddedau Zoom neu Microsoft 365 a chael cynnig safonol digidol i gynghorau. Gallai'r arbedion wedyn cael eu buddsoddi mewn platfform neu wasanaeth cymorth i helpu staff cynghorau datrys problemau technegol a bod yn fwy effeithiol. Byddai data o'r gwasanaeth cymorth yn dangos lle y gellid gwella prosesau yng nghynghorau dros amser.

**Sut y mae pwerau a chyfrifoldebau newydd ar gyfer yr haen hon o lywodraeth yn cael eu defnyddio i gefnogi cymunedau.**

Cyn bydd pwerau a chyfrifoldebau yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol mae eisiau trawsffurfiad i sicrhau bod cynghorau cymuned a thref

- yn cael eu hariannu trwy system sy'n flaengar ac yn deg i gymunedau ac unigolion
- yn cael eu craffu yn addas trwy ffyrdd modern sy'n briodol i gynghorau o bob maint
- yn cael eu cefnogi yn ymarferol ac uniongyrchol i weithredu fel sefydliadau unfed ganrif ar hugain ar ran systemau a phrosesau

Yr eiddoch yn gywir,

Justin Horrell